EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 91 – Parti Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9 (dim mwy na 20 mewn nifer)
geiriau – Addasiad o 'Y Sbectol Hud' – Mereid Hopwood

Cainc: Maesgwyn, Mona Meirion (1122)
Dyffryn Conwy a Cheinciau Eraill, Cymdeithas Cerdd Dant

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

Y SBECTOL HUD

Pan fydd yr haul yn cuddio'r sêr i gyd,
a'r nos ar goll tu ôl i ddrws y dydd,
pan fydd y lleuad wen ymhen draw'r byd,
a'r machlud fel y wawr ar orwel cudd;

Neu pan fydd niwl yn gwisgo'r bryniau draw,
a phlu yr eira'n oeri brigau'r llwyn,
pan fydd y blodau trist yn crio'r glaw –
rho bâr o sbecs dychymyg ar dy drwyn.

Ti'n gweld, mae gweld yn anodd ambell waith
a ninnau'n ddall i ryfeddodau'r byd,
mae'n anodd gweld y wên trwy'r gwgu maith,
mae'n anodd gweld y glas trwy'r glaw i gyd.

Am hyn, fy ffrind, cyn dechrau ar dy daith,
ym mhoced ôl dy jîns rho'r sbectol hud.
A gwisga hi, a mentra godi'r llen
i weld holl liwiau'r enfys sy'n dy ben.

NODER:
Nid yw'r gerdd hon yn union yr un peth â'r soned o'r un teitl sydd ar y fanyleb TGAU.

Gyda chaniatâd Mererid Hopwood

URDD GOBAITH CYMRU